

## Hysbysiad preifatrwydd deiliad grant

Mae'r Hysbysiad hwn yn esbonio sut mae Anthem yn defnyddio gwybodaeth bersonol wrth weinyddu grantiau, gan gynnwys derbyn ac ystyried ceisiadau am grantiau.

### 1. Newidiadau i'r Hysbysiad hwn

Gall yr Hysbysiad hwn newid o bryd i'w gilydd. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am newidiadau sylweddol drwy gysylltu â chi'n uniongyrchol.

Diweddarwyd yr Hysbysiad hwn ddiwethaf ym mis Chwefror 2022.

### 2. Pa wybodaeth bersonol fydd Anthem yn ei chasglu a'i phrosesu amdanaf i?

Mae'r wybodaeth bersonol y mae Anthem yn ei chasglu wrth asesu a gweinyddu ei grantiau yn bennaf yn cael ei chasglu'n uniongyrchol oddi wrth y sawl sy'n ymgeisio am grant yn ystod y broses ymgeisio. Yr unig wybodaeth bersonol a gaiff ei chasglu fydd cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn ar gyfer dau unigolyn sy'n bwynt cyswllt ar gyfer y cais am grant.

Rydym yn casglu, storio a defnyddio'r mathau canlynol o wybodaeth bersonol:

- Data adnabod fel eich enw, enw defnyddiwr, enw yn y cyfryngau cymdeithasol, a manylion cyfrif (a data proffil arall fel eich cyfrinair, dewisiadau, adborth ac ymatebion arolygon).
- Data cyswllt fel eich cyfeiriad, e-bost a rhifau ffôn.
- Data ariannol ar gyfer y sefydliad sy'n derbyn y grant, fel manylion cyfrif banc a manylion talu, a gwybodaeth am Gymorth Rhodd.
- Data trafodion, gan gynnwys manylion taliadau a rhoddion.
- Data technegol fel eich cyfeiriad IP pan fyddwch yn ymweld â'n gwefannau.
- Unrhyw wybodaeth arall a roddwch i ni yn ystod y cais am grant neu drwy gydol y cyfnod grant neu wedi hynny.

### 3. Sut a pham y bydd Anthem yn defnyddio fy ngwybodaeth bersonol?

Bydd Anthem yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, a gwybodaeth ddienw am eich buddiolwyr, at nifer o ddibenion gan gynnwys:

- gweinyddu cyfrif ar ein porth ymgeisio am grantiau.
- prosesu ac asesu ceisiadau am grantiau, gan gynnwys cysylltu â chi i drafod y cais ac unrhyw ymholiadau.
- gweinyddu grantiau ac at ddibenion yn ystod perthynas y grant, gan gynnwys cyswllt parhaus ynglŷn â'r berthynas, y taliad, y monitro a'r gwerthuso ac adrodd yn ôl.
- hyrwyddo gwaith sy'n cael ei ariannu gan y grant.

- cynnal ymchwil i'r farchnad o bryd i'w gilydd.
- anfon manylion am wasanaethau a digwyddiadau Anthem a fydd o ddiddordeb i chi yn ein barn ni.
- bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoliadol.
- ar gyfer atal twyll.
- ar gyfer sefydlu, amddiffyn a/neu orfodi hawliadau cyfreithiol.

#### 4. Cydweithio a rhwydweithio

Mae Anthem yn cynnal rhwydwaith Atsain ac yn cynnal cyfarfodydd rhwydwaith yn rheolaidd gan wahodd derbynwyr grant. O bryd i'w gilydd, efallai y byddwn yn cysylltu â'r cyswllt sydd wedi'i enwi gan dderbynnydd y grant i ofyn am ganiatâd i rannu eu manylion cyswllt ag aelodau eraill y rhwydwaith.

#### 5. A fydd Anthem yn rhannu fy ngwybodaeth bersonol gydag unrhyw un arall?

Byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol, a gwybodaeth ddienw am fuddiolwyr eich prosiect, gyda'n cyllidwyr a'n partneriaid, gan gynnwys Youth Music, at ddibenion gwerthuso a monitro.

Byddwn ond yn rhannu gyda thrydydd partion eraill i'r graddau sy'n ofynnol i gyflawni'r dibenion a nodir yn yr Hysbysiad hwn.

Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i bob trydydd parti barchu a diogelu unrhyw wybodaeth bersonol yn unol â chyfraith diogelu data.

Gall trydydd partion eraill gynnwys:

- ymgynghorwyr.
- cyflenwyr ac isgcontractwyr ar gyfer cyflawni unrhyw contract sydd gennym gyda nhw – er enghraifft ar gyfer gwasanaethau TG fel cynnal gwefannau.
- yswirwyr a darparwyr gwasanaethau proffesiynol fel cyfrifwyr a chyfreithwyr.
- cwmnïau ariannol sy'n casglu neu'n prosesu rhoddion ar ein rhan, a phlatfformau codi arian allanol.
- awdurdodau rheoleiddio, megis CThEM.
- buddsoddwyr yn ein rhaglenni, megis cyrff ariannu a phartneriaid corfforaethol.

Rydym hefyd yn cadw'r hawl i ddatgelu eich gwybodaeth i drydydd partion at eu dibenion eu hunain mewn rhai achosion. Er enghraifft:

- Os ydym o dan ddyletswydd gyfreithiol neu reoleiddiol i wneud hynny.
- Diogelu hawliau, eiddo a/neu ddiogelwch yr elusen, ei phersonél, cefnogwyr, defnyddwyr neu eraill (gan gynnwys chi).

#### 6. Am ba hyd y bydd Anthem yn cadw fy ngwybodaeth bersonol?

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am gyhyd ag sy'n angenrheidiol at y diben(ion) y caiff ei chadw ar eu cyfer, ac i fodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd. Gall y cyfnod hwn amrywio yn dibynnu ar y dibenion hynny.

## 7. Ein sail gyfreithiol dros gasglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol

Dyma'r seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth bersonol a nodir yn yr Hysbysiad hwn:

- Pan fo yna gontract a bod y defnydd yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r contract neu gymryd camau ar eich cais cyn ymrwymo iddo.
- Pan fo yno rwymedigaeth gyfreithiol neu reoleiddiol.
- Lle mae'n angenrheidiol ar gyfer "buddiant dilys" Anthem neu eraill a lle nad yw eich buddiannau a'ch hawliau sylfaenol yn drech na hyn. Buddiant dilys Anthem yn bennaf fydd ymgymryd â gweithgareddau creu grantiau fel endid elusennol, a gwaith cysylltiedig.

## 9. Eich hawliau o ran preifatrwydd

Mae gennych yr hawliau canlynol:

- i gofyn am y wybodaeth bersonol sydd gennym ac am gopi ohoni
- i dynnu caniatâd yn ôl
- i wrthwynebu prosesu (defnyddio) – mae gennych yr hawl i wrthwynebu lle'r ydym (i) yn dibynnu ar sail gyfreithiol ein buddiannau dilys (ii) yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i anfon deunydd marchnata uniongyrchol neu (iii) yn ei defnyddio at ddibenion ystadegol.
- i ddileu – mewn rhai achosion, gallwch ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol o'n cofnodion (neu ei wneud yn ddienw).
- i gyfyngu ar brosesu – yn hytrach na dileu, gallwch ofyn i ni gyfyngu ar ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol os oes anghytundeb ynglŷn â'i chywirdeb neu ei defnydd dilys.
- i gywiro – os ydych yn credu bod ein cofnodion ynglŷn â chi yn anghywir, gallwch ofyn i ni eu diweddarau. Gallwch ofyn i ni wirio'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch os nad ydych yn siŵr.
- i 'gludadwyedd data' – mae hyn yn golygu, pan fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol gan ddefnyddio dulliau awtomataidd ar sail caniatâd, neu i gyflawni contract, y gallwch ofyn i ni ei throsglwyddo i chi neu ddarparwr gwasanaeth arall mewn fformat defnyddiadwy.

Sylwer y gallwn ofyn am brawf adnabod neu wybodaeth bellach.

Dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y mae'r hawliau hyn yn gymwys.

Cysylltu â ni (gan gynnwys cwynion)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am y Polisi Preifatrwydd hwn neu ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol, rhowch wybod i ni drwy gysylltu â ni yn un o'r ffyrdd canlynol:

Rhian Hutchings, Prif Swyddog Gweithredol, Anthem

Drwy'r post: Anthem, Plas Bute, Bae Caerdydd, CF10 5AL

Drwy e-bost: [post@anthem.cymru](mailto:post@anthem.cymru)

Dros y ffôn: 07966 450299

Mae gennych hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, rheoleiddiwr y DU ar gyfer preifatrwydd data – [www.ico.org.uk/global/contact-us](http://www.ico.org.uk/global/contact-us). Rydym bob amser yn ddiolchgar am y cyfle i ddatrys eich pryderon cyn i chi deimlo bod angen i chi siarad â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.